Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Woodlands, Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin

**Heol Vincent**
**Treláі**
**CF5 5AQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Woodlands, Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Uwchradd Woodlands, Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Arbennig |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 141 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 89 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | * |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd mewn ysgolion arbennig a gynhelir yw 44.7%) | 62.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion arbennig a gynhelir yw 100%) | 100.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 09/01/2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 21/11/2022 |
| Mae Ysgol Uwchradd Woodlands yn darparu addysg ddydd ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 19 mlwydd oed. Mae mwyafrif y disgyblion o oedran ysgol statudol a thua 40% ohonynt mewn addysg ôl-orfodol. Mae anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn amrywiol, ac mae gan bob disgybl ddatganiad o angen addysgol | |

arbennig. Mae gan ryw 44% o ddisgyblion anawsterau dysgu difrifol, mae gan un o bob pump pellach ohonynt anghenion corfforol a meddygol, ac mae gan un o bob pump arall anawsterau lleferydd, cyfathrebu ac iaith. Mae ychydig o ddisgyblion yn awtistig neu mae ganddynt anhawster dysgu cyffredinol. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion namau synhwyraidd ac anawsterau dysgu dwys a lluosog. At ei gilydd, mae anghenion disgyblion yn fwy cymhleth na phan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf.

Mae 15 dosbarth yn yr ysgol, a 21 o athrawon cyfwerth ag amser llawn, a 24 o gynorthwywyr addysgu. Mae dosbarthiadau wedi eu trefnu yn ôl lefel gallu, sy'n amrywio o gam cynnydd un i gam cynnydd tri.

Mae'r ysgol wedi bod yn gweithio gyda phrifysgol leol i ddarparu lleoliadau ar gyfer myfyrwyr TAR.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2016 a'i gosod yn y categori mesurau arbennig. Tynnwyd yr ysgol o'r categori hwn yn 2018. Penodwyd pennaeth yr ysgol ym mis Ionawr 2019, ond fe'i penodwyd yn bennaeth dros dro ar ôl yr arolygiad yn 2016.

Disgwylir y bydd Ysgol Uwchradd Woodlands yn symud i safle newydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol ar gampws addysg Y Tyllgoed yn 2026.

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Uwchradd Woodlands yn un o dair ysgol arbennig sy'n ffurfio Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin. Sefydlwyd y ffederasiwn ym mis Ionawr 2018. Nod y ffederasiwn yw cyflawni arbedion maint, datblygu cydweithio agos ar draws yr ysgolion er budd disgyblion a staff, fel ei gilydd, a datblygu a gwella capasiti arwain, tra'n cynnal hunaniaeth unigol pob un o'r tair ysgol. Caiff pob un o'r tair ysgol eu gwasanaethu gan un corff llywodraethol, a'u harwain gan bennaeth gweithredol, a benodwyd yn 2019.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r ysgol wedi parhau â'i thaith wella, ac fe gaiff ei rhedeg gan arweinwyr hynod alluog ac effeithiol sydd wedi eu cymell i ddarparu'r profiadau dysgu gorau posibl ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae'r ysgol yn parhau i gael ei heffeithio gan brinderau staffio ond mae'n rheoli'r anawsterau hyn hyd eithaf ei gallu. Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o gymorth ar gyfer disgyblion, ac mae'n darparu cymorth lles ffurfiol ac anffurfiol hynod effeithiol ar gyfer pob un o'r staff.

At ei gilydd, mae Woodlands yn ysgol ofalgar ac anogol iawn. Mae disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn dda iawn ac yn mwynhau perthnasoedd hapus a pharchus â disgyblion eraill a staff. Mae staff yn deall ac yn ymateb i anghenion disgyblion yn dda. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd addas sy'n cyd-fynd â'u hanghenion a'u gallu. Mae gan staff ddisgwyliadau cyson uchel o agweddau disgyblion at ddysgu ac ymddygiad. Pan mae'r addysgu yn fwyaf effeithiol, mae staff yn frwdfrydig ac yn cynllunio'n dda ar gyfer anghenion unigol disgyblion.

Mae'r ysgol wedi datblygu cwricwlwm ymholi creadigol ac mae disgyblion yn cyfranogi mewn cynllunio'r cwricwlwm. Mae'r ysgol hefyd yn cefnogi dealltwriaeth disgyblion o wahanol ddiwylliannau a thraddodiadau'n dda ac yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion brofi'r rhain. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu yn y gymuned leol, er enghraifft trwy gyfleoedd gwerth chweil i ymgymryd â phrofiad gwaith a lleoliadau dros dro gyda busnesau.

Mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd cyffrous i ddisgyblion ddysgu mwy am y byd gwaith, ond yn bwysicach, caiff disgyblion eu gwerthfawrogi gan y sefydliadau lletyol am eu hymroddiad a'u hymrwymiad. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at hunan-barch disgyblion.

At ei gilydd, mae disgyblion yn Woodlands yn gwrtais, yn hynaws ac yn parchu nhw eu hunain a phobl eraill.

## Argymhellion

A1 Parhau i ddatblygu medrau disgyblion, yn enwedig mewn darllen a'r Gymraeg

A2 Cryfhau systemau olrhain sy'n dangos cynnydd disgyblion dros gyfnod yn glir

A3 Gwerthuso effaith Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin ar Ysgol Uwchradd Woodlands

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi dwy astudiaeth achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â'r canlynol: 1 cefnogi agweddau disgyblion at ddysgu a rhannu profiadau'r cwricwlwm a phrofiadau dysgu trwy ddigwyddiadau lledaenu; a 2 datblygu diwylliant sy'n cefnogi lles staff, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae bron pob un o'r disgyblion yn Ysgol Uwchradd Woodlands yn gwneud cynnydd addas yn unol â'u hanghenion a'u gallu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, ac yn datblygu i fod yn bobl ifanc hapus, hyderus a chyfeillgar, yn barod ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud datblygiad cryf yn eu medrau llafaredd dros gyfnod. Mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus ac yn defnyddio ystod addas o eirfa sy'n benodol i bwnc ac iaith sy'n briodol i allu.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n ofalus ar gyfarwyddyd ac yn ymateb yn dda i gwestiynau os oes modd iddynt wneud hynny. Maent yn gwrando'n barchus ar gyfraniadau eu cyfoedion ar lafar. Mewn tasgau gwrando a siarad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn, er enghraifft pan fyddant yn gwrando'n ofalus ar eu hathro yn darllen stori, ac yn rhyngweithio'n dda trwy actio rhai o'r camau nesaf yn y stori.

Mae disgyblion hŷn yn datblygu medrau gwrando a siarad cryf a defnyddiol pan fyddant yn cyfweld â'u cyfoedion am eu hobïau a'u diddordebau neu'n trafod atebion i broblemau gyda'i gilydd. Yn yr achosion hyn, mae disgyblion fel arfer yn rhoi atebion estynedig ac yn cynnig rhesymau dilys i gefnogi eu safbwyntiau. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae diffyg hyder gan ychydig o ddisgyblion pan fyddant yn ymateb i gwestiynau athrawon, ac maent yn rhoi ymatebion byr iawn er eu bod yn cael eu hysgogi a'u hannog yn dda.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud datblygiad cadarn mewn medrau darllen dros gyfnod. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddatblygu medrau darllen disgyblion yn anghyson o fewn y camau cynnydd, ac ar eu traws. Pan geir cyfleoedd i wneud hynny, mae mwyafrif y disgyblion yn ynganu seiniau llythrennau, geiriau unigol neu ymadroddion byr yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn fedrus o ran cysylltu lluniau â geiriau cyfarwydd, er enghraifft ar ôl gwrando ar stori am Y Dyn Sinsir. Mae disgyblion hŷn sy'n gallu darllen yn annibynnol, yn gwneud hynny'n dda. Maent yn darllen ar goedd yn hyderus ac yn dangos lefel dda o ddealltwriaeth o'r hyn y maent yn ei ddarllen, er enghraifft pan fyddant yn darllen ac yn trafod y llyfr 'There's a Rang-Tan in my Bedroom'.

At ei gilydd, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud datblygiad cadarn yn eu medrau ysgrifennu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar gam cynnydd un yn datblygu eu medrau echddygol manwl yn dda trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ysgrifennu a chyn-ysgrifennu, fel gweithgareddau edafu, gefel a mwclis, ac wrth greu marciau a siapiau llythrennau gyda'u dwylo mewn tywod a reis. Mae disgyblion eraill, sydd â medrau echddygol gwannach, yn datblygu eu cymhwysedd yn addas dros gyfnod. Er enghraifft, mae disgyblion yn mynd ymlaen i ffurfio siapiau ac ysgrifennu llythrennau yn llwyddiannus â phennau ysgrifennu dros gyfnod. Mae disgyblion hŷn hefyd yn gwella eu medrau ysgrifennu dros gyfnod ac yn unol â'u gallu, er enghraifft pan fyddant yn cwblhau brawddegau byr am gymeriadau o lyfr a phan fyddant yn paratoi cwestiynau cyfweliad.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud datblygiad addas mewn medrau rhifedd yn unol â'u gallu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau gweithio gyda staff a'u cyfoedion mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn. Er enghraifft, maent yn hyderus wrth gyfrifo cost eitemau bwyd a diod yn eu caffi dosbarth. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau rhifedd pan fyddant yn gweithio mewn grwpiau bach, yn annibynnol ar yr athro neu'r staff cymorth, er enghraifft pan fyddant yn gweithio gyda'i gilydd i redeg siop ac yn actio fel cwsmeriaid a pherchennog siop. Maent yn dewis eitemau, yn cyfrifo'r costau ac yn defnyddio'r nifer gywir o ddarnau arian i'w prynu. Mae llawer o ddisgyblion hŷn sy'n gallu gwneud hynny yn gweithio ag annibyniaeth gynyddol pan fyddant yn cwblhau tasgau mathemateg ymarferol. Maent yn ystyried atebion posibl i broblemau ac yn cymhwyso'r rhain yn llwyddiannus.

Mae mwyafrif y disgyblion, gan ddefnyddio ystod gyfyng o gymwysiadau digidol, yn gwneud datblygiad addas yn eu medrau digidol, pan fydd cyfleoedd buddiol i wneud hynny. Mae llawer ohonynt yn manteisio ar wefannau cyfarwydd a chymwysiadau digidol gan ddefnyddio gliniaduron ac yn defnyddio cyfrifiaduron llechen yn fedrus i ysgrifennu neu wneud recordiadau sain a fideo. Mae ychydig ohonynt yn defnyddio cyfrifiaduron llechen yn llwyddiannus i gofnodi eu hatebion yn ystod cwis dosbarth.

At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig mewn medrau Cymraeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol cryf a buddiol. Er enghraifft, maent yn gwneud datblygiad cadarn mewn medrusrwydd corfforol wrth dorri darnau o ffrwythau i baratoi brecwast iach a phan fyddant yn cwblhau tasgau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau, fel toes, tywod, reis, siapiau cardfwrdd a phegiau. Pan fydd cyfleoedd gwerth chweil iddynt wneud hynny, mae disgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda mewn gweithgareddau dosbarth pwrpasol sy'n gysylltiedig â'u gwaith thematig, er enghraifft pan fyddant yn efelychu bywyd anifeiliaid y goedwig trwy actio rhan gaeafgysgu, hela, rhedeg a bwyta fel rhan o'u gwaith thematig ar yr hydref.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn dda, ar y cyfan. Er enghraifft, maent yn defnyddio amrywiaeth eang o offerynnau taro i ddisgrifio'r hyn sy'n cael ei weld a synau arddangosfa tân gwyllt. Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau canu a pherfformio yn y gwasanaeth cerdd bob wythnos. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn ail-greu celf o lyfrau maen nhw'n eu darllen fel James and the Giant Peach, ac yn creu paentiadau o bwmpenni i ddathlu'r cynhaeaf.

Mae llawer o ddisgyblion sy'n gallu gwneud hynny yn datblygu'n gryf i fod yn annibynnol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Er enghraifft, maent yn paratoi diod neu fyrbryd iddyn nhw eu hunain yn y dosbarth heb gymorth, yn rheoli eu gofal personol yn dda ac yn ymgymryd â dyletswyddau ystafell ddosbarth. Mae ychydig o ddisgyblion hŷn yn datblygu medrau annibyniaeth hynod fuddiol pan fyddant yn mynychu lleoliadau gwaith mewn ysbytai lleol, cartref cŵn, amgueddfeydd a theatrau.

Mae disgyblion yn ennill ystod eang o gymwysterau ac achrediadau, sy'n gweddu'n dda i'w hanghenion, ar y cyfan. Ceir cynlluniau tra ystyriol i sicrhau bod disgyblion yn dilyn cyrsiau sy'n gweddu'n well i'w dyheadau yn y dyfodol agos.

Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, symudodd pob un o'r disgyblion i addysg bellach, hyfforddiant neu leoliadau gwaith. Mae hyn yn gryfder arbennig.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae lles ac agweddau disgyblion at ddysgu yn gryf. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel tra'n mynychu'r ysgol ac yn mwynhau'r ystod eang o weithgareddau dysgu a gynigir gan yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud datblygiad cryf yn eu medrau cymdeithasol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn annwyl a chyfeillgar ag athrawon a staff cymorth, ac yn gweithio'n gynhyrchiol ac yn gadarnhaol â nhw mewn gweithgareddau. Mae llawer o ddisgyblion yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd, ac yn ffrindiau da â'i gilydd. Maent yn datblygu bondiau cryf pan fyddant yn gweithio a chwarae gyda'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn foesgar a chwrtais iawn. Dangosant lefel uchel o ystyriaeth am eu cyfoedion, ac maent yn ofalgar iawn tuag at ei gilydd. Mae hon yn nodwedd gref. Mae llawer o ddisgyblion yn groesawgar ac yn gyfeillgar tuag at ymwelwyr, ac mae ychydig iawn ohonynt yn hyderus iawn i fynd at ymwelwyr, cyflwyno eu hunain a chael sgyrsiau gwerth chweil â nhw.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddymunol a chwrtais ac yn groesawgar a pharchus iawn tuag at bobl sy'n ymweld â'u hysgol. Mae disgyblion yn hyderus i fynd at ymwelwyr a chyflwyno eu hunain, ac yn hapus i ateb cwestiynau'n hyderus. Mae mwyafrif y disgyblion yn falch o siarad am eu hysgol, a'r effaith gadarnhaol y mae wedi'i chael arnyn nhw.

Mae'r perthnasoedd rhwng disgyblion a staff yn gryf iawn, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda â staff. Mae hyn yn creu amgylchedd dysgu diogel a gofalgar. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn mentro yn eu dysgu ac yn datblygu eu hyder a'u gwydnwch.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda â'u cyfoedion ac yn oddefgar o'i gilydd. Mae llawer o ddisgyblion yn garedig ac ystyriol a byddant yn helpu a chefnogi eu cyfoedion pan fydd angen, er enghraifft wrth ddatrys problemau gyda'i gilydd, fel sillafu geiriau yn ystod gêm lythrennedd. Mae'r cymorth a'r gofal sy'n cael ei ddangos gan ddisgyblion i'w gilydd yn gryfder arbennig.

Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau corfforol trwy'r sesiynau therapi corfforol dyddiol yn nodwedd nodedig. Mae mwyafrif y disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau corfforol. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i gadw'n egnïol fel rhan o ffordd iach o fyw a datblygu medrau cymdeithasol da. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynd ati i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi ddwywaith y dydd. Mae hyn yn eu cynorthwyo i ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu ar adegau amrywiol trwy gydol y dydd. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn ymarfer dawnsio ac yn datblygu'r gallu i ganolbwyntio'n dda wrth chwarae delwau cerddorol y tu allan ar ddechrau'r diwrnod ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan yn dda mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol, fel pêl-droed a saethyddiaeth ar y maes chwarae yn ystod amseroedd egwyl. Mae disgyblion yn chwarae gyda'i gilydd yn dda ac yn dysgu

cymryd eu tro, ennill a cholli a datblygu dealltwriaeth o sut i helpu ei gilydd mewn gemau.

Mae disgyblion yn mwynhau cael cyfle i rannu eu safbwyntiau a'u barnau, a gwrandewir arnynt yn dda. Mae gwaith y cyngor ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar ychydig o feysydd i wella darpariaeth yr ysgol, er enghraifft dylunio ardal y maes chwarae a chael eu cynnwys mewn penodi aelodau staff newydd. Caiff gwaith y cyngor ysgol ei gyfleu'n effeithiol i ddisgyblion ar draws yr ysgol trwy bamffledi, taflenni a byrddau gwybodaeth o gwmpas yr ysgol. Caiff disgyblion eraill gyfleoedd i rannu eu syniadau a gwneud awgrymiadau, fel gwneud gwelliannau i ddarpariaeth ddysgu yn yr awyr agored. Mae disgyblion yn elwa ar ddatblygu eu dealltwriaeth o ystod eang o feysydd trwy eu gwaith mewn grwpiau fel y Criw Cymraeg a'r Cyngor Eco.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau da at ddysgu ac maent yn mwynhau'r ysgol. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda iawn ac maent yn ymdawelu'n dda ac yn sylwgar mewn sefyllfaoedd unigol a grŵp. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn awyddus i gyfleu eu profiadau a'u mwynhad o fywyd ysgol. Mae disgyblion yn hynod falch o'r gwaith a wnânt ac yn mynegi eu bod yn mwynhau'r ysgol ac yn edrych ymlaen at y gweithgareddau. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd yn frwdfrydig ag amrywiaeth o weithgareddau dysgu. Fodd bynnag, ar ychydig o achlysuron, mae disgyblion yn ymddieithrio ac angen cymorth sylweddol i ailafael yn y dasg.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cynnal lefelau uchel o ganolbwyntio ac yn ffocysu'n dda ar ystod eang o dasgau. Fodd bynnag, caiff ychydig o ddisgyblion anhawster yn cynnal eu hymgysylltiad fel eu bod yn parhau i weithio'n ddiwyd am gyfnodau amser priodol. Pan fydd disgyblion yn ei chael yn anodd canolbwyntio, mae staff cymorth yn gweithio'n galed i ennyn diddordeb y disgyblion o'r newydd yn y gweithgaredd dysgu yn llwyddiannus.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol wedi cynllunio cwricwlwm ymholi trylwyr a chreadigol, lle mae athrawon wedi gweithio gyda'i gilydd i gynllunio ystod gynhwysfawr o brofiadau dysgu sy'n gweddu'n dda i ddiddordebau a lefelau gallu disgyblion, ar y cyfan. Ceir cyfleoedd buddiol i gynnwys disgyblion mewn cynllunio'r cwricwlwm. Mae disgyblion yn pleidleisio am destunau y maent eisiau dysgu amdanynt, er enghraifft planhigion o gymharu ag anifeiliaid.

Caiff themâu dysgu eu cynllunio mewn camau cynnydd. Mae hyn yn helpu sicrhau bod athrawon yn cynllunio ar gyfer, ac yn cyflwyno, ystod gynhwysfawr o weithgareddau sy'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd priodol.

Rhoddir cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddysgu yn y gymuned leol, er enghraifft ymweliad â llynnoedd lleol i gymharu cynefinoedd naturiol fel rhan o'u thema planhigion o gymharu â chynefinoedd, a chymryd rhan mewn rygbi tag yn stadiwm rygbi proffesiynol y ddinas.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd pwrpasol o'u gofodau cyfyngedig yn yr awyr agored i ddarparu cyfleoedd gwerth chweil i fynd â dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth, er

enghraifft mewn sesiynau rhifedd saethyddiaeth ar y maes chwarae. Fodd bynnag, mae ansawdd yr amgylchedd dysgu mewnol yn rhy amrywiol. Nid yw ychydig iawn o ddosbarthiadau wedi'u trefnu neu'u haddurno mewn ffordd sy'n creu amgylchedd dysgu cadarnhaol ar gyfer disgyblion.

Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion hŷn ar gyfer dysgu yn gysylltiedig â gwaith trwy gyflwyno rhaglen opsiynau galwedigaethol ysgogol. Mae pob opsiwn galwedigaethol yn gweithredu fel busnes cydweithredol ac yn cynnwys gweithgareddau fel gwerthu ar-lein, cynnal a chadw a sba iechyd. O fewn y rhaglen hon, mae'r ysgol yn cynnig ystod o gymwysterau achredu priodol a chymwysterau priodol wedi'u seilio ar fedrau. Yn ogystal â hyn, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion gael lleoliadau profiad gwaith yn y gymuned leol, fel arlwyo mewn ffreutur ysgol gynradd leol a lleoliad cynorthwyydd addysgu mewn ysgol arall yn y ffederasiwn. Mae'r ysgol wedi creu cysylltiadau llwyddiannus iawn â darparwr allanol. Mae'r rhaglen hon yn cynorthwyo pobl ifanc ag anableddau dysgu i ennill y medrau a'r profiad sydd eu hangen i symud i gyflogaeth am dâl.

At ei gilydd, mae defnydd staff o Gymraeg achlysurol yn anghyson. Fodd bynnag, datblygodd yr ysgol y Criw Cymraeg yn ddiweddar, lle mae disgyblion yn cydweithio â staff i wella'r ddarpariaeth hon. Mae hyn yn cynnwys annog defnydd o'r Gymraeg a hyrwyddo ethos Cymreig cadarnhaol ar draws yr ysgol. Caiff ychydig o agweddau ar ddiwylliant a hanes Cymru eu dathlu yn yr ysgol trwy ddigwyddiadau cenedlaethol fel Dydd Gŵyl Dewi, yr eisteddfod flynyddol a Dydd Santes Dwynwen. Mae'r ysgol hefyd yn darparu gweithgareddau dysgu pwrpasol ar gyfer disgyblion i ddathlu natur ddiwylliannol amrywiol Cymru. Er enghraifft, ar ôl Ramadan, gwahoddwyd rhieni i'r ysgol i ddathlu'r ŵyl ar ddiwedd yr ympryd, sef Eid-al-Fitr.

Mae llawer o ystafelloedd dosbarth yn amgylcheddau dysgu ysgogol, sy'n adlewyrchu anghenion disgyblion a'r dysgu sy'n digwydd ynddynt.

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon ddisgwyliadau cyson uchel o ymddygiad disgyblion a'u hagweddau at ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol a chefnogol gyda'u dosbarth, ac yn sicrhau amgylchedd dysgu digynnwrf ac anogol.

Pan mae'r addysgu yn fwyaf effeithiol, mae staff yn frwdfrydig am y thema ddysgu y maent yn ei chyflwyno. Dangosant ddealltwriaeth gref o'r maes dysgu a phrofiad neu fedr y maent yn ei addysgu. Mae staff yn cynllunio a pharatoi amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn dda. Maent yn sicrhau bod cyflymdra priodol ac amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu, sy'n gysylltiedig â chamau cynnydd, ac yn diwallu anghenion disgyblion unigol yn briodol, gan gynnwys her. Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio amrywiaeth o systemau cyfathrebu, gan gynnwys iaith arwyddion a chymhorthion gweledol, i sicrhau bod disgyblion yn deall beth a ofynnir ohonynt. Mae athrawon a staff cymorth yn addasu eu harddull holi i fodloni lefelau dealltwriaeth disgyblion, er enghraifft i gynnwys dysgwyr mewn trafodaeth am fyrbrydau a bwyd iach i'w dewis ar gyfer blwch cinio. Pan mae amcanion dysgu'n glir, mae ymgysylltiad a chynnydd disgyblion yn gryf. Fodd bynnag, ar yr adegau prin iawn lle mae amcanion yn aneglur ac nid yw adnoddau'n gweddu'n dda i anghenion disgyblion, mae disgyblion yn ymgysylltu llai. Mewn ychydig iawn o wersi, collodd disgyblion ffocws oherwydd yr eglurder anghyson gan

yr athro a chyflymdra araf y gwersi. Yn ychwanegol, ar ychydig iawn o achlysuron, ni chafodd y gwersi disgwyliedig eu haddysgu, ac roedd y cynllunio yn ad hoc.

Mae staff cymorth yn adnabod y disgyblion yn dda, ar y cyfan. Maent yn rhoi cymorth gwerthfawr a chadarnhaol i ddisgyblion, gan ddefnyddio eu blaengaredd yn rhagweithiol yn aml i reoli sefyllfaoedd a allai fod yn heriol. Mae ganddynt berthnasoedd cryf ac anogol â disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth a chanmoliaeth ddefnyddiol ar lafar yn Gymraeg ac yn Saesneg, gyda chymorth arwyddion, lle bo'n briodol. Mae pob un o'r athrawon yn defnyddio offeryn cyfathrebu ac asesu digidol i gofnodi adborth wrth iddynt ei roi i ddisgyblion, gan roi sylwadau ar yr hyn y maent wedi'i gyflawni a pha mor dda maent wedi gwneud. Fodd bynnag, nid yw adborth bob amser yn helpu disgyblion â'u camau nesaf mewn dysgu.

Mae'r ysgol yn casglu amrywiaeth eang o wybodaeth am gynnydd disgyblion. Mae staff yn cofnodi gwybodaeth fanwl, y maent yn ei defnyddio'n effeithiol i fonitro anghenion a datblygiad cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol disgyblion. Defnyddir asesiadau o anghenion emosiynol disgyblion yn dda i lywio'r camau nesaf yn ymgysylltiad ac ymddygiad disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r cysylltiadau rhwng cynllunio ar gyfer asesiadau academaidd a'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion bob amser yn amlwg.

Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu'n dda am y cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud mewn sawl ffordd. Maent yn gwerthfawrogi cael gwybodaeth trwy offeryn cyfathrebu digidol, yn cael cyfarfodydd ac adolygiadau rheolaidd, ac yn derbyn negeseuon e-bost a galwadau ffôn gan athrawon a staff cymorth. Mae staff yn paratoi adroddiadau addysgiadol ar ddiwedd blwyddyn i rieni a gofalwyr, ac yn darparu gwybodaeth reolaidd am gynnydd eu plentyn a'r camau nesaf mewn dysgu.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Woodlands yn ysgol ofalgar ac anogol iawn. Mae bron pob un o'r staff yn deall ac yn ymateb i anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion emosiynol disgyblion yn dda. Maent yn sefydlu perthnasoedd gweithio ymddiriedus ac yn cynorthwyo disgyblion yn sensitif ac yn bwyllog. Ar draws yr ysgol, mae'r defnydd cyson o arferion yn cynorthwyo i greu amgylchedd sy'n rhagweladwy ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni a gofalwyr yn effeithiol, ac yn cydnabod cryfder ei pherthynas â nhw. Mae'n rhannu gwybodaeth werthfawr am yr ysgol mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft trwy ei phlatfformau cyfryngau cymdeithasol, cyfathrebu ar lafar a chylchlythyrau cyhoeddedig. Yn ychwanegol, mae'r caffi wythnosol yn darparu cyfleoedd i rieni a gofalwyr gyfarfod â'i gilydd a chyfathrebu'n uniongyrchol â staff yr ysgol.

Mae'r ysgol yn creu cyfleoedd helaeth i bob disgybl ddatblygu ei ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Er enghraifft, mae disgyblion yn dathlu Diwali, yn dysgu am ŵyl y goleuadau ac yn gwrando ar stori Rama a Sita. Rhoddir cyfle i ddisgyblion sy'n dysgu am ddiwrnod ieithoedd Ewropeaidd flasu dewis o fwydydd, yn cynnwys peli cig Yr

Almaen a siocled o'r Swistir. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth fuddiol o'r amrywiaeth yn y byd o'u cwmpas.

Mae'r pwyslais pwrpasol ar ddatblygu gwerthfawrogiad o'r byd naturiol o fewn prosiectau bioffilia a garddwriaeth yr ysgol yn ategu addysg am gynaliadwyedd yn ystyrlon, yn ogystal â hyrwyddo lles disgyblion yn effeithiol.

Trwy'r cyngor ysgol, y grŵp ysgolion iach a chyngor diogelwch ar y rhyngrwyd, mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd addas i ddisgyblion gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am agweddau pwysig ar fywyd yr ysgol. O ganlyniad i ddewisiadau sy'n cael eu gwneud gan y cyngor ysgol, mae'r ysgol wedi cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol a chorfforol ar ôl yr ysgol yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effaith y rhain.

Yn gyffredinol, mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i fonitro ac olrhain cynnydd disgyblion, gan gynnwys lles, presenoldeb ac ymddygiad. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi'r ysgol i nodi'n llwyddiannus ble mae angen cymorth ac ymyrraeth ychwanegol ar ddisgyblion. Gallai ymyriadau dilynol gynnwys chwarae therapiwtig, llythrennedd emosiynol a garddio. Mae'r rhain ar gael i ddisgyblion y nodwyd mai nhw sydd â'r angen mwyaf. Fodd bynnag, mae'r diffyg capasiti o fewn y tîm therapiwtig yn effeithio ar eu gallu i gynnig therapi i bawb.

Mae'r ysgol yn casglu a choladu gwybodaeth am ddisgyblion o ystod o ffynonellau, gan gynnwys rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill. Defnyddir y wybodaeth hon i boblogi casgliad o gynlluniau unigol fel cynlluniau addysg unigol (CAUau), cynlluniau cyfathrebu, cynlluniau synhwyraidd a chynlluniau gofal personol. Caiff strategaethau eu datblygu, a chynorthwyir staff yn effeithiol i gyflwyno'r rhain. Gofynnir am fwy o wybodaeth gan ddisgyblion, rhieni, gofalwyr ac athrawon ar draws ystod o feysydd. Mae hyn yn helpu'r ysgol i roi gwybodaeth drylwyr i athrawon am anghenion unigol y disgyblion adeg derbyn. Fodd bynnag, er bod y dogfennau hyn yn cynnwys gwybodaeth werthfawr iawn, ni chaiff y wybodaeth hon ei defnyddio'n ddigon effeithiol bob amser i lywio addysgu a chynllunio ar gyfer cynnydd.

Mae gan Woodlands raglen bontio gynhwysfawr a buddiol ar gyfer disgyblion newydd i'r ysgol, sy'n eu cynorthwyo'n dda i addasu yn unol â'u hamgylchedd newydd. Mae hyn yn cynnwys creu taith realiti rithwir o'r ysgol, y gall darpar ddisgyblion ei chwarae fel gêm hefyd.

Mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth ac arweiniad gwerth chweil ynghylch opsiynau wrth i ddisgyblion ddechrau ystyried eu camau nesaf. Mae cysylltiadau agos â cholegau lleol, gweithleoedd ac asiantaethau eraill yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn yr ardal hon ac yn cryfhau trefniadau pontio o'r ysgol. Er enghraifft, mae gan yr ysgol gysylltiadau rhagorol â phrosiect sy'n gosod disgyblion mewn lleoliadau profiad gwaith ystyrlon. Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gyda'r prosiect i sicrhau bod personoliaethau, medrau a diddordebau'r disgyblion yn gweddu'n dda i'w lleoliadau. Mae disgyblion yn ennill profiad gwerthfawr mewn gwneud cais am leoliadau, a chael eu cyfweld ar eu cyfer. O ganlyniad, mae ychydig iawn o ddisgyblion dros y ddwy flwyddyn academaidd ddiwethaf wedi cael interniaethau llwyddiannus mewn ysbyty lleol, yn ymgymryd â rolau o fewn gwasanaethau gwybodaeth, arlwyo a gwaith labordy. Mae'r prosiect hwn yn cynnig profiadau galwedigaethol gwerthfawr, yn datblygu medrau cymdeithasol disgyblion ac yn codi lefelau hyder yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar sicrhau bod disgyblion yn ddiogel. Mae'n rhoi gwybodaeth berthnasol a phriodol i staff a disgyblion am sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ym mhob sefyllfa ar draws y cwricwlwm. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer recriwtio staff yn ddiogel yn gadarn. Mae pob un o'r staff yn ymwybodol o'r trefniadau diogelu o fewn yr ysgol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae pennaeth yr ysgol yn dangos arweinyddiaeth glir, eglurder meddwl a gwydnwch. Ers tynnu'r ysgol o'r categori mesurau arbennig yn 2018, mae wedi parhau â'i thaith i wella.

I ddiwallu anghenion newidiol a chynyddol gymhleth y disgyblion, mae arweinwyr wedi gweithredu rhaglen o newid sylweddol. Bu newidiadau sylweddol yn y tîm staff gyda chydweithwyr newydd yn ymuno â'r ysgol mewn rolau arweinyddiaeth, addysgu a chynorthwyydd addysgu parhaol. Disodlwyd y model ysgol uwchradd traddodiadol lle mae disgyblion yn symud o un dosbarth i'r llall. Erbyn hyn, mae meintiau'r dosbarthiadau yn llai, lle caiff disgyblion eu haddysgu'n gyffredinol gan un athro, ac fe gaiff disgyblion eu grwpio yn unol â'u gallu yn hytrach na'u hoedran. Datblygwyd arlwy'r cwricwlwm hefyd. Mae'r trefniadau hyn yn briodol ac yn cyfrannu at lefelau uchel o ymgysylltiad gan ddisgyblion mewn gwersi a'u mwynhad yn yr ysgol, ar y cyfan.

Mae gan bob un o'r staff rolau a chyfrifoldebau clir ac maent yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Fodd bynnag, ni chaiff y drefn o ran cyflwyno a chynllunio'r cwricwlwm ei goruchwylio'n ddigon trylwyr.

Mae'r ysgol yn cefnogi lles pob aelod o'i staff yn effeithiol iawn. Er enghraifft, defnyddir negeseuon e-bost o gydnabyddiaeth lle mae staff yn diolch yn gyhoeddus i bobl eraill am eu gwaith a'u cymorth, ac yn eu llongyfarch. Mae cynllun angel gwarcheidiol ar waith lle caiff staff eu pennu yn ddienw i gydweithiwr. Mae'r angel gwarcheidiol yn rhoi negeseuon o gymorth ac anogaeth, ac yn gwobrwyo ei gydweithiwr â rhoddion bach. Pan fo'n briodol, cynigir cymorth mwy ffurfiol, er enghraifft trwy hyfforddi a mentora a ddarperir gan arweinwyr i fewnbwn seicolegydd sydd, yn ogystal â chynnig cymorth un i un, yn cynnal sesiynau myfyriol ar gyfer grwpiau staff.

Mae'r diwylliant yn Woodlands yn un sy'n canolbwyntio ar fyfyrio ac ymholi parhaus a dysgu proffesiynol yn seiliedig ar dystiolaeth i lywio arfer. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at weledigaeth gyffredinol yr ysgol, sef "dysgu ar gyfer byw".

Mae'r blaenoriaethau gwella yn Woodlands wedi'u seilio ar ddealltwriaeth gadarn, ar y cyfan, o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae uwch arweinwyr a staff yn olrhain cynnydd yn ddiwyd, nid yn unig o ran y camau a gymerwyd ond hefyd o ran effaith y camau hynny. Mae'r ysgol wedi datblygu diwylliant llwyddiannus o fyfyrio a gwella. Cefnogir hyn yn dda gan arweinwyr i ymestyn darpariaeth a lles.

Trwy weithio gyda chydweithwyr yn y ffederasiwn a thu hwnt, gan gynnwys myfyrwyr TAR mewn prifysgol leol, mae uwch arweinwyr o'r ysgol wedi rhannu eu harbenigedd datblygol mewn deall a rheoli ymddygiad disgyblion. Dros gyfnod, mae staff wedi dod yn hynod ymwybodol o sbardunau a chynorthwyir disgyblion i newid ymddygiadau

annymunol i ymddwyn yn fwy priodol, er enghraifft cymryd rhan mewn chwarae anniben.

Mae'r ysgol a'r ffederasiwn yn darparu ystod ddefnyddiol iawn o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff. Mae'r rhain yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r ysgolion, aelodau staff unigol a'r ffederasiwn. Er enghraifft, oherwydd yr ymagwedd ysgol gyfan at ddatblygu dealltwriaeth staff o ymddygiadau disgyblion, nid oes unrhyw ymyriadau corfforol ataliol wedi bod yn yr ysgol dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae'r ymagwedd a fabwysiadwyd hefyd wedi cyfrannu at yr amgylchedd digynnwrf yn yr ysgol.

Rhoddir cyfleoedd gwerth chweil i staff fod yn arweinwyr cyswllt. Maent yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau cadarn o ran arweinyddiaeth ysgol, sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer rolau arwain yn y dyfodol. Yn fwy diweddar, caiff arweinwyr ar draws y ffederasiwn eu cynorthwyo i ennill dealltwriaeth ddyfnach o'u rhinweddau a'u nodweddion nhw eu hunain, ac arweinwyr eraill.

Caiff staff eu cynorthwyo a'u hannog i gynnal prosiectau ymholi. O ganlyniad i astudio'r graddau y mae disgyblion yn ymgysylltu'n gymdeithasol a'u mecanweithiau amddiffyn, mae'r ysgol wedi cyflwyno sesiynau trwy gydol y dydd, lle mae disgyblion yn cael dewis gweithgareddau fel tynnu lluniau, cael amser iddyn nhw eu hunain a gwylio fideos ymlaciol. Dros gyfnod, mae disgyblion yn gwella o ran rheoli a deall eu hemosiynau ac maent wedi'u paratoi'n well ar gyfer dysgu.

At ei gilydd, megis dechrau datblygu y mae'r trefniadau i werthuso effaith dysgu proffesiynol ar addysgu a dysgu.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'r grant datblygu disgyblion i gefnogi anghenion emosiynol disgyblion a nodwyd.

Mae'r ysgol yn parhau i gael ei heffeithio gan brinderau staffio ond mae'n rheoli hyn hyd eithaf ei gallu.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin wedi datblygu gweledigaeth glir ar y cyfan, a gefnogir gan nodau strategol hynod uchelgeisiol. Fodd bynnag, nid yw'r ffederasiwn bob amser yn disgrifio camau gweithredu a nodwyd yn fanwl gywir. Ar adegau, maent yn llawn jargon ac yn aneglur.

Caiff y ffederasiwn a'r pennaeth gweithredol eu cynorthwyo'n dda iawn gan gadeirydd y llywodraethwyr a chorff llywodraethol sy'n cefnogi'r weledigaeth ar gyfer y ffederasiwn a'i ysgolion yn fawr. Maent yn angerddol ac yn defnyddio eu medrau yn dda, ar y cyfan, i gefnogi a herio'r tîm arweinyddiaeth weithredol. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r llywodraethwyr yn gwbl ymwybodol o nodau a blaenoriaethau'r ffederasiwn. Yn ychwanegol, nid yw ychydig ohonynt yn ddigon ymwybodol o benderfyniadau am wariant.

Mae dyletswyddau'r corff llywodraethol yn ymestyn ar draws y tair ysgol. Caiff aelodau o'r corff llywodraethol eu cynghori'n addas ar waith y tair ysgol gan y pennaeth gweithredol a phenaethiaid ysgol. Mae penaethiaid ysgol, lle bo'n briodol, yn rhoi cyflwyniad i lywodraethwyr ar waith eu hysgol, ac maent yn aelod o'r corff llywodraethol mewn rhinwedd arsylwi. Yn rhannol oherwydd y cynnydd yng

nghyfrifoldeb y corff llywodraethol a chyfyngiadau ar ôl y pandemig, mae'r graddau y mae llywodraethwyr yn ymweld â phob ysgol yn anffurfiol a chyfarfod â disgyblion a staff, yn anfynych, ac mae hyn yn cyfyngu ar eu dealltwriaeth o bob un o'r tair ysgol.

Mae'r pennaeth gweithredol wedi sefydlu cyfres o systemau a strwythurau gwerthfawr i sicrhau bod y corff llywodraethol yn gwneud penderfyniadau gwybodus. Mae systemau a goruchwylio cyllid, er enghraifft, ar draws y ffederasiwn, yn gryf. Fodd bynnag, rhagwelir diffyg yng nghyllidebau craidd pob un o'r ysgolion. Yn ddiweddar, mae'r ffederasiwn wedi cynyddu ei gapasiti arwain, ac o ganlyniad, mae'r cyfraniad a wna pob ysgol at ariannu'r ffederasiwn wedi cynyddu, sy'n cyfyngu ymhellach ar yr adnoddau sydd ar gael i'r tair ysgol. Mae hyfywedd hirdymor y ffederasiwn yn aneglur.

Estynnir y cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer staff gan bartneriaethau cryf â darparwyr allanol. Yn ychwanegol, datblygu hyfforddwyr mewnol a chydweithio ar draws y ffederasiwn mewn meysydd fel ymagweddau cadarnhaol at hyfforddiant cymorth ymddygiad. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar waith ysgolion. Cryfhawyd y cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer arweinwyr hefyd.

Mae'r ffederasiwn wedi cynnal dadansoddiad trylwyr o'r cyllid a gaiff, ac wedi llwyddo i sicrhau cynnydd yn y cyllidebau craidd ar gyfer pob un o'r ysgolion. O ganlyniad i'r gweithgaredd hwn, mae ysgolion arbennig eraill yn yr awdurdod wedi elwa hefyd.

Mae'r ffederasiwn a'r ysgolion wedi cryfhau cysylltiadau ag ystod o bartneriaid sy'n darparu gwasanaethau hynod werthfawr a hanfodol i ddisgyblion a staff, fel ei gilydd. Er enghraifft, mae gan y ffederasiwn gynlluniau tra datblygedig i gomisiynu gwasanaethau gan yr awdurdod iechyd lleol i ymestyn darpariaeth ar draws y tair ysgol, lle bo'n briodol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  27/01/2023